TGAU

# CBAC TGAU
# Drama

Cymeradwywyd gan Cymwysterau Cymru

## Canllawiau Cyflwyno

Addysgu o 2025

Dyfarnu o 2027



Nid yw'r cymhwyster hwn a reoleiddir gan Cymwysterau Cymru ar gael i ganolfannau Lloegr.

Yn arbennig i Gymru.
Yn barod i'r byd.

Hoffai CBAC ddiolch i fyfyrwyr ac athrawon Ysgol Uwchradd Fitzalan, Caerdydd ac Ysgol Uwchradd Llanwern, Casnewydd am gymryd rhan yn y gwaith o greu'r cloriau hyn.

## Cynnwys

Nodau'r Canllaw Cyflwyno ........ 3

- Strwythur y cymhwyster ........ 3
- Uned 1 ........ 3
- Uned 2 ........ 6
- Uned 3 ........ 8

Crynodeb o'r asesu ........ 9

Amcanion Asesu ........ 10

- Uned 1 ........ 10
- Uned 2 ........ 10
- Uned 3 ........ 10

Manyleb a Phecyn Asesu ........ 11

- Deall yr ymhelaethiad yn y fanyleb ........ 11
- Bonion y fanyleb ........ 11
- Geiriau gorchymyn ........ 12

Cynlluniau Marcio ........ 14

- Dyddiadau Pwysig ........ 18
- Atodiad A: Ymarferwyr a Genres Theatr ........ 19
- Atodiad B: Rhestr Terminoleg ........ 22



© WJEC CBAC Ltd.2025.

# Nodau'r Canllaw Cyflwyno

Nod y Canllaw Cyflwyno yw rhoi trosolwg o'r cymhwyster a cheisio helpu athrawon i ddeall sut rydym yn asesu'r cymhwyster TGAU. Bydd yn cynnig cyflwyniad i'r fanyleb, trosolwg o'r asesu, a bydd yn cefnogi athrawon i ddeall yn well sut i baratoi eu dysgwyr ar gyfer asesu'r unedau gwahanol ym mhob cymhwyster. Ceir rhagor o wybodaeth am bob uned yng nghanllawiau unigol yr unedau.

## Strwythur y cymhwyster

Mae CBAC TGAU Drama yn cynnwys 3 uned:

| | **Teitl yr uned** | **Math o Asesiad** | **Pwysoliad** |
|---|---|---|---|
| **Uned 1** | Dyfeisio Theatr | Asesiad<br>Asesiad di-arholiad | 40% |
| **Uned 2** | Perfformiad o Destun | Asesiad<br>Asesiad di-arholiad | 30% |
| **Uned 3** | Dehongli Theatr | Arholiad ar-sgrin | 30% |

Mae pob uned yn orfodol.

## Uned 1

**Dyfeisio Theatr**

Asesiad di-arholiad ymarferol a Log Adfyfyriol
Wedi'u marcio gan y ganolfan a'u cymedroli gan CBAC
40% o'r cymhwyster
96 marc

**Trosolwg o'r uned**

Pwrpas yr uned hon yw:

- datblygu ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o amrywiaeth o ymarferwyr/cwmnïau/arddulliau a genres theatraidd
- datblygu ymwybyddiaeth a sgiliau dysgwyr o ran creu a datblygu eu gwaith eu hunain
- datblygu'r ffordd mae dysgwyr yn cymhwyso'u sgiliau perfformio **neu** ddylunio mewn perfformiad byw
- rhoi cyfle i ddysgwyr ddatblygu eu gallu i adfyfyrio, dadansoddi a gwerthuso eu penderfyniadau creadigol
- datblygu gwydnwch, penderfynoldeb a hyder dysgwyr.



© WJEC CBAC Ltd.2025.

Bydd yr uned hon yn canolbwyntio ar:

- **archwilio** – bydd dysgwyr yn cael cyfle i archwilio amrediad o ymarferwyr/cwmnïau/arddulliau a genres theatraidd. Bydd hyn yn cynnwys amrywiaeth o dechnegau, ffurfiau, arddulliau, cyd-destunau a dulliau o gyflwyno drama. Gallai archwilio ddigwydd hefyd drwy gyfrwng theatr fyw a/neu ddigidol, fel ffynonellau posibl o ddylanwad ar gyfer syniadau perfformio neu ddylunio. Dylai dysgwyr gael cyfle i archwilio amrywiaeth, gan gynnwys gwahanol safbwyntiau, hunaniaeth, diwylliant a chyfraniadau sy'n cwmpasu Cymru a'r byd.
- **ymateb ac adfyfyrio** – bydd dysgwyr yn gallu adfyfyrio ar eu gwaith eu hunain ac ymateb i adborth gan bobl eraill fel proses barhaus trwy gydol y cyfnod datblygu, a fydd yn caniatáu iddynt wella'r perfformiadau y maent yn eu rhoi neu'r dyluniadau y maent yn eu cynhyrchu
- **creu** – bydd dysgwyr yn cyfrannu tuag at greu perfformiad dyfeisiedig mewn ymateb i ddewis o ysgogiadau a osodwyd gan CBAC.

Gall dysgwyr ddewis cwblhau'r uned hon fel actorion **neu** ddylunwyr, waeth beth fo'u llwybr dewisol yn Uned 2.
Rhaid i ddysgwyr sy'n dewis dylunio ddewis **un** o'r canlynol:

- dylunio goleuo
- dylunio sain
- dylunio set a phropiau
- dylunio gwisgoedd, gwallt a cholur.

Ar gyfer yr asesiad hwn, mae'n ofynnol i ddysgwyr:

- greu a datblygu darn o theatr mewn ymateb i ysgogiad, gan ddefnyddio technegau ymarferwr theatr dylanwadol, cwmni neu nodweddion arddull theatraidd neu genre ac arddangos a chymhwyso eu sgiliau perfformio **neu** ddylunio mewn perfformiad byw
- cynhyrchu Log Adfyfyriol.

Gall dysgwyr ddewis cael eu hasesu naill ai ar actio **neu** ddylunio.

Gall dysgwyr weithio mewn grwpiau sy'n cynnwys rhwng **dau** a **phump** o actorion. Gall pob grŵp gynnwys hyd at **bedwar** dylunydd, gyda phob un yn cynnig sgìl dylunio gwahanol.

Bydd hyd y darn theatr hwn yn dibynnu ar nifer yr actorion yn y grŵp a dylai fod fel a ganlyn:

- Grŵp o ddau actor: 5-10 munud
- Grŵp o dri actor: 7-12 munud
- Grŵp o bedwar actor: 9-14 munud
- Grŵp o bum actor: 11-16 munud.



© WJEC CBAC Ltd.2025.

Rhaid i bob actor ryngweithio ag actorion eraill a/neu'r gynulleidfa **am o leiaf pum munud**. Nid yw nifer y dylunwyr mewn grŵp yn effeithio ar hyd y darn. Gall dysgwyr gwblhau'r asesiad unrhyw bryd yn ystod y cwrs. Fodd bynnag, dylai canolfannau sicrhau bod asesiad yn cael ei gwblhau dim ond pan fydd dysgwyr wedi ymgymryd â'r addysgu a'r dysgu angenrheidiol ac wedi datblygu'r sgiliau a'r wybodaeth ofynnol.

Mae'r asesiad yn cyfrannu 40% at radd gyffredinol y cymhwyster. Caiff yr uned ei marcio allan o 96 o farciau.

Bydd yr ysgogiadau'n cael eu rhyddhau ar safle porth CBAC ym mis Medi y flwyddyn astudio gyntaf.

Bydd yr uned hon yn cael ei hasesu'n fewnol gan y ganolfan a'i chymedroli'n allanol gan CBAC.



© WJEC CBAC Ltd.2025.

## Uned 2

**Perfformiad o Destun**

Asesiad ymarferol di-arholiad
Wedi'i farcio gan arholwr ymweld
30% o'r cymhwyster
72 marc

**Trosolwg o'r uned**

Pwrpas yr uned hon yw:

- datblygu ymwybyddiaeth a sgiliau dysgwyr o ran datblygu, newid a mireinio eu perfformiad neu ddyluniad eu hunain sy'n seiliedig ar destun
- datblygu'r ffordd mae dysgwyr yn cymhwyso'u sgiliau perfformio neu ddylunio mewn perfformiad byw.

Bydd yr uned hon yn canolbwyntio ar:

- **archwilio** – bydd dysgwyr yn cael y cyfle i archwilio a pherfformio amrywiaeth o destunau theatraidd, o amrywiol genres a chyfnodau, ac yn gysylltiedig â gwahanol ddiwylliannau, persbectifau a chyfraniadau yng Nghymru a'r byd. Gellir cysylltu'r archwilio hefyd ag amrediad o arddulliau a genres theatraidd, â nodau artistig amrywiol ymarferwyr/cwmnïau theatr, a thrwy ddefnyddio theatr fyw a/neu theatr wedi'i recordio ymlaen llaw/wedi'i ffrydio'n fyw fel ffynhonnell bosibl o ddylanwad ar gyfer syniadau perfformio neu ddylunio
- **creu** – yn gysylltiedig â'r broses o greu a gwireddu'r perfformiad terfynol yn seiliedig ar destun; gallent gael y profiad o hyn naill ai fel actorion **neu** fel dylunwyr.

Bydd gan ddysgwyr ryddid wrth ddewis testun ar gyfer Uned 2. Fodd bynnag, mae'n rhaid i'w dewis o destun fod yn wahanol i'r testun gosod a ddewiswyd yn Uned 3.

Gall dysgwyr ddewis cwblhau'r uned hon fel actorion **neu** ddylunwyr, waeth beth fo'u llwybr dewisol yn Uned 1.

Rhaid i ddysgwyr sy'n dewis dylunio ddewis **un** o'r canlynol:

- dylunio goleuo
- dylunio sain
- dylunio set a phropiau
- dylunio gwisgoedd, gwallt a cholur.

Ar gyfer yr asesiad hwn, mae'n ofynnol i ddysgwyr:

- greu a datblygu darn(au) o destun perfformiad cyhoeddedig i'w berfformio
- dangos a chymhwyso sgiliau perfformio **neu** ddylunio a fydd yn cael eu gwireddu yn y perfformiad terfynol.

Bydd gan ddysgwyr ryddid wrth ddewis testun ar gyfer Uned 2. Fodd bynnag, mae'n **rhaid** i'w dewis o destun fod yn wahanol i'r testun gosod a ddewiswyd yn Uned 3.

Gall dysgwyr ddewis cael eu hasesu naill ai ar actio **neu** ddylunio.

Bydd dysgwyr yn gweithio mewn grwpiau a fydd yn cynnwys rhwng dau a phedwar actor. Gall pob grŵp gael hyd at ddau ddylunydd, gyda phob un yn cynnig sgìl dylunio gwahanol.



© WJEC CBAC Ltd.2025.

Bydd hyd y darn theatr hwn yn dibynnu ar nifer yr actorion yn y grŵp a dylai fod fel a ganlyn:

- Grŵp o ddau actor: 5-10 munud
- Grŵp o dri actor: 7-12 munud
- Grŵp o bedwar actor: 9-14 munud

Rhaid i bob actor ryngweithio ag actorion eraill a/neu'r gynulleidfa **am o leiaf pum munud**.
Nid yw nifer y dylunwyr mewn grŵp yn effeithio ar hyd y darn.

**Viva**

Nid yw'r viva yn cael ei asesu a bydd yn digwydd ar ôl y perfformiad. Rhaid i bob dysgwr sy'n dewis dylunio roi cyflwyniad 3-5 munud o hyd yn sôn wrth yr arholwr am eu dyluniad. Mae'n gyfle i ddysgwyr esbonio a chyflwyno eu dyluniad i'r arholwr.

Bydd yr uned hon yn cael ei chwblhau yn y flwyddyn astudio olaf.

Mae'r asesiad yn cyfrannu 30% at radd gyffredinol y cymhwyster. Caiff yr uned ei marcio allan o 72 o farciau.

Asesir yr uned hon gan arholwr ymweld.



© WJEC CBAC Ltd.2025.

## Uned 3
**Dehongli Theatr**

Arholiad digidol yn unig, wedi'i farcio gan CBAC
30% o'r cymhwyster
72 marc

**Trosolwg o'r uned**

Pwrpas yr uned hon yw:

- dangos a chymhwyso gwybodaeth a dealltwriaeth o sut mae drama yn cael ei dylunio, ei datblygu a'i pherfformio drwy gyd-destun gweithiau sydd wedi eu paratoi ymlaen llaw a heb eu paratoi ymlaen llaw
- datblygu sgiliau creadigol dysgwyr, fel actorion, dylunwyr a chyfarwyddwyr, drwy gyd-destun gweithiau sydd wedi'u paratoi ymlaen llaw a heb eu paratoi ymlaen llaw
- adfyfyrio a dadansoddi gwaith eraill drwy gyd-destun gwaith heb ei baratoi ymlaen llaw.

Bydd yr uned hon yn canolbwyntio ar:

- archwilio – bydd dysgwyr yn cael cyfle i archwilio amrywiol safbwyntiau a phrofiadau theatraidd. Dylai hyn gynnwys amrywiaeth o dechnegau, ffurfiau, arddulliau a chyd-destunau. Bydd yr archwiliad hwn yn gysylltiedig â'u testun gosod dewisol yn ogystal ag amrywiaeth o gynyrchiadau theatraidd o arddulliau/genres cyferbyniol, cyfnodau/cyd-destunau cyferbyniol, gweithiau wedi'u creu yng Nghymru neu a ysbrydolwyd gan Gymru, a gweithiau a ysgrifennwyd gan amrywiaeth eang o awduron, gan gynnwys rhai o gefndiroedd Du, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig. Dylai dysgwyr gael cyfle i archwilio theatr fel actor, dylunydd a chyfarwyddwr, gan gasglu syniadau o amrywiaeth o ffynonellau i gyfoethogi eu dealltwriaeth o ddrama.
- ymateb ac adfyfyrio – mae hyn yn cysylltu â pherfformiadau byw a/neu wedi'u recordio/eu ffrydio'n fyw fel dylanwadau theatraidd posibl ar gyfer y testunau gosod a'r gweithiau heb eu paratoi. Wrth i ddysgwyr wneud cynnydd yn Uned 3, maent fwyfwy yn gwerthuso ac yn creu ymatebion mwy soffistigedig, yn annibynnol i theatr fyw a/neu wedi'i recordio ymlaen llaw. Mae eu gwerthusiad o waith eraill yn adlewyrchu dealltwriaeth gynyddol o'r profiad theatraidd ac yn eu galluogi i ffurfio beirniadaeth effeithiol.

Rhaid i'r testunau a ddewisir ar gyfer Unedau 2 a 3 fod yn wahanol.


© WJEC CBAC Ltd.2025.

## Crynodeb o'r asesu

| | |
|---|---|
| **Uned 1: Dyfeisio Theatr**<br>***Asesiad ymarferol di-arholiad***<br>**40% o'r cymhwyster** | **96 marc** |
| **Crynodeb o'r asesu**<br>Ymateb i ysgogiadau a osodir gan CBAC, sy'n cael eu hasesu gan y ganolfan a'u cymedroli gan CBAC. Bydd yr ysgogiadau ar gael ar safle Porth CBAC ym mis Medi yn y flwyddyn astudio gyntaf. Bydd yr ysgogiadau'n cael eu newid yn flynyddol.<br>Gall dysgwyr ddewis naill ai actio **neu** ddylunio. Bydd dysgwyr yn creu, mireinio a pherfformio darn o theatr. Bydd dysgwyr yn cynhyrchu Log Adfyfyriol o'r broses hefyd, mewn fformat heb ei ragnodi.<br>Gall dysgwyr weithio mewn grwpiau sy'n cynnwys rhwng **dau** a **phump** o actorion. Gall hyd at **bedwar** dysgwr ychwanegol, a phob un yn gweithio ar sgìl dylunio gwahanol, weithio gyda phob grŵp perfformio. | |
| **Uned 2: Perfformiad o Destun**<br>***Asesiad ymarferol di-arholiad***<br>**30% o'r cymhwyster** | **72 marc** |
| **Crynodeb o'r asesu**<br>Wedi'i farcio gan arholwr ymweld. Gall dysgwyr ddewis naill ai perfformio **neu** ddylunio.<br>Rhaid i bob actor ryngweithio ag actorion eraill a/neu'r gynulleidfa am o leiaf pum munud. Bydd dylunwyr yn amlinellu eu syniadau mewn cyflwyniad Viva nad yw'n cael ei asesu.<br>Gall dysgwyr weithio mewn grwpiau sy'n cynnwys rhwng **dau** a **phedwar** o actorion.<br>Gall hyd at **ddau** ddysgwr ychwanegol, a phob un yn gweithio ar sgìl dylunio gwahanol, weithio gyda phob grŵp perfformio. | |
| **Uned 3: Dehongli Theatr**<br>***Arholiad ar-sgrin*: 2 awr**<br>**30% o'r cymhwyster** | **72 marc** |
| **Crynodeb o'r asesu**<br>Cwestiynau sy'n gofyn am ymatebion gwrthrychol, atebion byr ac estynedig, mewn ymateb i destun gosod a thestunau heb eu gweld o'r blaen. | |

Cymhwyster llinol yw hwn.

Nid yw'n cynnwys haenau.

Nid oes unrhyw hierarchaeth yn y drefn y mae'r unedau'n cael eu cyflwyno. Nid yw'r drefn yn awgrymu trefn addysgu'r unedau.



© WJEC CBAC Ltd.2025.

# Amcanion Asesu

**AA1**
Dangos a chymhwyso gwybodaeth a dealltwriaeth o sut mae drama yn cael ei datblygu, ei dylunio a'i pherfformio

**AA2**
Datblygu a chymhwyso sgiliau perfformio a/neu ddylunio

**AA3**
Adfyfyrio ar, dadansoddi a gwerthuso eu gwaith eu hunain a gwaith pobl eraill.

**AA4**
Creu a datblygu syniadau i gyfleu ystyr mewn dyluniadau theatraidd a/neu berfformiadau

## Uned 1

Mae'r amcanion asesu ar gyfer yr uned hon wedi'u dosrannu fel a ganlyn:

| AA1 | AA2 | AA3 | AA4 | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|
| - | 22.5% | 5% | 12.5% | 40% |

## Uned 2

Mae'r amcanion asesu ar gyfer yr uned hon wedi'u dosrannu fel a ganlyn:

| AA1 | AA2 | AA3 | AA4 | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|
| - | 22.5% | - | 7.5% | 30% |

## Uned 3

Mae'r amcanion asesu ar gyfer yr uned hon wedi'u dosrannu fel a ganlyn:

| AA1 | AA2 | AA3 | AA4 | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|
| 20% | - | 10% | - | 30% |



© WJEC CBAC Ltd.2025.

# Manyleb a Phecyn Asesu

Pan fyddwn yn datblygu cymwysterau newydd, rydym yn cynhyrchu'r dogfennau canlynol:

- Manyleb – mae’r ddogfen hon yn ymdrin â'r holl wybodaeth a sgiliau y disgwylir i ddysgwyr eu gwybod erbyn diwedd eu cwrs.
- Pecyn Asesu – mae hwn yn cynnwys y Deunyddiau Asesu Enghreifftiol (SAMs) h.y.: papurau arholiad enghreifftiol a thasgau asesiadau di-arholiad enghreifftiol, rheolaethau perthnasol ar gyfer yr asesiad di-arholiad, a chynlluniau marcio
  Mae'r canllaw yn adeiladu ar wybodaeth sydd yn y fanyleb a'r pecyn asesu i helpu i wella eich dealltwriaeth o'r dogfennau hynny.

## Deall yr ymhelaethiad yn y fanyleb

Dylai dysgwyr fod yn ymwybodol o'r canlynol:

- bonion y fanyleb
- beth yw ystyr bonion y fanyleb.

## Bonion y fanyleb

Pan fyddwch chi'n edrych drwy'r fanyleb, byddwch yn sylwi bod y geiriad yn y golofn ymhelaethiad yn amrywio cyn y rhestr o gynnwys y mae angen i ddysgwyr ei wybod; yr enw ar hwn yw bonyn:

| Bonyn y Fanyleb | Ymhelaethiad |
|---|---|
| **Mae'n ofynnol i ddysgwyr** | ddatblygu a chymhwyso eu sgiliau perfformio neu ddylunio mewn perfformiad byw. |
| **Dylai dysgwyr allu** | adfyfyrio ar eu gwaith eu hunain, ei fireinio a’i werthuso |

Defnyddir pob bonyn am reswm ychydig yn wahanol

| Bonyn y Fanyleb | Pa bryd mae'n cael ei ddefnyddio |
|---|---|
| **Dylai dysgwyr wybod** | Pan fydd yn ofynnol i ddysgwyr ddefnyddio galw i gof uniongyrchol. |
| **Mae'n ofynnol i ddysgwyr** | Pan fydd dysgwyr yn dangos gofynion unedau unigol. |
| **Dylai dysgwyr ddeall** | Pan fydd yn ofynnol i ddysgwyr ddangos mwy o ddyfnder na nodi neu alw i gof syml, er enghraifft, gallu cymhwyso gwybodaeth at gyd-destunau cyfarwydd neu anghyfarwydd a gallu syntheseiddio a gwerthuso gwybodaeth at ddiben penodol. |
| **Dylai dysgwyr allu** | Pan fydd angen i ddysgwyr gymhwyso'u gwybodaeth a'u dealltwriaeth at sefyllfa ymarferol neu ddangos gwaith cymhwyso sgiliau a thechnegau ymarferol. |



© WJEC CBAC Ltd.2025.

## Geiriau gorchymyn

Dylai dysgwyr fod yn ymwybodol o'r canlynol:

- beth yw geiriau gorchymyn
- beth yw ystyr pob gair gorchymyn
- beth mae pob gair gorchymyn yn ei asesu.

Geiriau gorchymyn yw'r geiriau a'r ymadroddion yr ydym yn eu defnyddio yn ein hasesiadau sy'n dweud wrth fyfyrwyr sut dylent ateb y cwestiwn neu gwblhau'r dasg. Mae geiriau gorchymyn yn tywys y dysgwr drwy'r cwestiwn neu'r dasg ac yn rhoi syniad o'r ymateb sydd ei angen.

| | |
|---|---|
| (a) ↗ | **Disgrifiwch** gymeriad **MABLI** yn **y dyfyniad**. |
| **Gair gorchymyn** | |

Nid yw'r tablau canlynol yn gynhwysfawr, ond byddant yn rhoi syniad da i chi o'r geiriau gorchymyn a ddefnyddiwn fel arfer:

| **Geiriau gorchymyn ar gyfer galw i gof uniongyrchol** | |
|---|---|
| **Gair Gorchymyn** | **Gofynion yr ymateb** |
| Disgrifiwch | Nodi nodweddion arbennig a rhoi manylion disgrifiadol, ffeithiol.<br>*Dyma un o'r geiriau gorchymyn a ddefnyddir amlaf. Os bydd angen esboniad, yna defnyddiwch ddau orchymyn: 'disgrifiwch ac esboniwch'.* |
| Llusgwch a Gollyngwch | Symud i ran arall o sgrin gan ddefnyddio llygoden neu ddyfais debyg. |
| Rhowch | Cael ateb drwy gofio pethau. |
| Nodwch/Ticiwch/Cliciwch/Rhowch gylch o amgylch | Amlygu rhywbeth a'i enwi o nifer o bosibiliadau. |
| Labelwch | Dynodi gan ddefnyddio enw. |
| Enwch | Nodi neu wneud rhestr. |
| Amlinellwch | Rhoi prif nodweddion. |
| Nodwch *(State)* | Mynegi'n glir. |



© WJEC CBAC Ltd.2025.

| Geiriau gorchymyn ar gyfer cymhwyso/dangos sgiliau: | |
|---|---|
| **Gair Gorchymyn** | **Gofynion yr ymateb** |
| Dangoswch | Rhoi enghreifftiau, a disgrifio gan gyfeirio at enghreifftiau. |
| Dyluniwch | Penderfynu ar sut mae rhywbeth yn edrych a'i swyddogaeth drwy lunio neu luniadu cynlluniau. |
| Trafodwch | Cyflwyno pwyntiau allweddol. |
| Esboniwch | Rhoi resymau neu achosion. Dangos dealltwriaeth o sut a pham mae rhywbeth wedi digwydd. |
| Cynigiwch | Awgrymu ffordd o weithredu yn seiliedig ar resymau wedi'u cefnogi. |
| Dewiswch | Gwneud dewis priodol o amrywiol opsiynau. |
| Awgrymwch | Cyflwyno syniad, rheswm neu gam gweithredu posibl. |
| **Geiriau gorchymyn ar gyfer cyfosod a gwerthuso** | |
| **Gair Gorchymyn** | **Gofynion yr ymateb** |
| Dadansoddwch | Gwahanu gwybodaeth yn gydrannau a nodi eu nodweddion. |
| Cymharwch | Nodi **tebygrwyddau**. |
| Ystyriwch | Darllen y wybodaeth a roddwyd ac ymateb iddi. |
| Trafodwch | Archwilio mater yn fanwl mewn modd strwythuredig, gan ystyried gwahanol syniadau. |
| Gwerthuswch | Barnu o dystiolaeth sydd ar gael. |
| Cyfiawnhewch | Defnyddio tystiolaeth i gefnogi achos. |
| Adfyfyriwch | Ystyried syniadau, profiadau, sefyllfa neu fater. |
| Awgrymwch | Rhoi rheswm neu ddull gweithredu posibl. |



© WJEC CBAC Ltd.2025.

## Cynlluniau Marcio

Mae cynlluniau marcio a/neu feini prawf asesu yn profi'r amcanion dysgu a fwriedir ar gyfer elfen. Maent yn disgrifio'r wybodaeth a'r sgiliau (a'r agwedd o bosibl) y disgwylir i ymgeisydd eu dangos yn eu hymatebion, ac yna'n cael eu defnyddio wrth farcio'r gwaith.

**Cynllun marcio yn seiliedig ar Amcanion:**
Ar gyfer cwestiynau atebion byr iawn sy'n gofyn am un ymateb cywir.

| Cwestiwn | | Ateb | | AA1 | AA2 | AA3 | Cyfanswm Marciau |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 1. | ***Breuddwyd Nos Ŵyl Ifan*** William Shakespeare | | | | | | |
| | (c) | (i) | Enwch y ddau lwyfan hyn | 2 | | | 2 |
| **AA1<br>Arddangos gwybodaeth a dealltwriaeth o'r ffordd y mae drama a theatr yn cael eu datblygu a'u perfformio** | | | | | | | |
| Rhowch un marc am bob llwyfan cywir sydd wedi'i nodi, hyd at uchafswm o 2 farc.<br>• Diagram A – Llwyfan ymwthiol<br>• Diagram B – Llwyfan bwa prosceniwm | | | | | | | |

**Cynllun Marcio Seiliedig ar Bwyntiau**
Ar gyfer cwestiynau atebion byr sydd ag amrywiaeth o ymatebion posibl

| Cwestiwn | | Ateb | | AA1 | AA2 | AA3 | Cyfanswm Marciau |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 2. | ***Pethe Brau,*** Tennessee Williams | | | | | | |
| | (a) | (iii) | Yn fras, disgrifiwch y dôn a'r tempo y gellid eu defnyddio wrth ddweud y llinell rydych chi wedi'i dewis. | 2 | | | 2 |
| **AA1<br>Arddangos gwybodaeth a dealltwriaeth o'r ffordd y mae drama a theatr yn cael eu datblygu a'u perfformio** | | | | | | | |
| • Rhowch un marc am dôn addas ac un marc am dempo addas.<br>• Dylai'r ymateb fod yn gysylltiedig â'r llinell benodol yn y cwestiwn blaenorol.<br>• Rhaid i'r atebion gyfeirio at dôn **a** thempo er mwyn ennill y 2 farc llawn. Os mai dim ond un a drafodir, bydd yr atebion yn cael eu marcio allan o uchafswm o 1 marc. | | | | | | | |
| **Cynnwys mynegol** | | | | | | | |
| Dim ond enghreifftiau yw'r rhain a dylai pob dewis amgen dilys gael ei ystyried a'i farcio'n briodol.<br>• Tôn ddig a thempo cyflym er mwyn pwysleisio ei ddicter at Amanda<br>• Tôn ddirmygus a thempo cyflym er mwyn dangos ei anhoffter o Amanda a'r ffordd y mae'n ei drin<br>• Tôn sbeitlyd a thempo araf er mwyn rhoi Amanda yn ei lle<br>• Tôn anghrediniol a thempo cyflym er mwyn dangos nad yw'n credu y byddai Amanda yn mynd â'i lyfrau oddi arno. | | | | | | | |



© WJEC CBAC Ltd.2025.

**Cynlluniau marcio seiliedig ar lefelau**
Ar gyfer cwestiynau sy'n gofyn am ymatebion estynedig

| Cwestiwn | | Ateb | AA1 | AA2 | AA3 | Cyfanswm Marciau |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 3. | ***Bryniau'r Glas-Atgofion,*** Dennis Potter | | | | | |
| | (ch) | Fel actor, gofynnwyd i chi berfformio rôl **JOHN** mewn cynhyrchiad o *Bryniau'r Glas-Atgofion.* Dewiswch un darn o'r ddrama ac esboniwch sut gallech chi gyfleu'r cymeriad i'r gynulleidfa.<br><br>**Peidiwch â defnyddio'r darn a ddefnyddiwyd ar gyfer cwestiynau 3(a)-3(c)**<br><br>Yn eich ateb, cyfeiriwch at:<br>• cymhelliant y cymeriadau<br>• llais<br>• symudiadau<br>• rhyngweithio. | 15 | | | 15 |

| Band | AA1 Arddangos gwybodaeth a dealltwriaeth o'r ffordd y mae drama a theatr yn cael eu datblygu a'u perfformio |
|---|---|
| **5** | **13-15 marc**<br>• Esboniad craff o'r hyn sy'n cymell y cymeriadau yn y darn a ddewiswyd<br>• Gwybodaeth a dealltwriaeth graff o sut gellir defnyddio'r llais i gyfleu'r cymeriad yn y darn a ddewiswyd<br>• Gwybodaeth a dealltwriaeth graff o sut gellir defnyddio symudiadau i gyfleu'r cymeriad yn y darn a ddewiswyd<br>• Gwybodaeth a dealltwriaeth graff o sut gellir defnyddio rhyngweithio i gyfleu'r cymeriad yn y darn a ddewiswyd<br>• Cyfeiriadau manwl iawn at y darn i ategu'r awgrymiadau ynglŷn â sgiliau llais/symudiadau/rhyngweithio<br>• Gwybodaeth, dealltwriaeth a defnydd perthnasol iawn o derminoleg drama. |
| **4** | **10-12 marc**<br>• Esboniad manwl o'r hyn sy'n cymell y cymeriadau yn y darn a ddewiswyd<br>• Gwybodaeth a dealltwriaeth fanwl o sut gellir defnyddio'r llais i gyfleu'r cymeriad yn y darn a ddewiswyd<br>• Gwybodaeth a dealltwriaeth fanwl o sut gellir defnyddio symudiadau i gyfleu'r cymeriad yn y darn a ddewiswyd<br>• Gwybodaeth a dealltwriaeth fanwl o sut gellir defnyddio rhyngweithio i gyfleu'r cymeriad yn y darn a ddewiswyd<br>• Cyfeiriadau manwl at y darn a ddewiswyd i ategu'r awgrymiadau ynglŷn â sgiliau llais/symudiadau/rhyngweithio<br>• Gwybodaeth, dealltwriaeth a defnydd perthnasol o derminoleg drama. |



© WJEC CBAC Ltd.2025.

| | |
|---|---|
| **3** | **7-9 marc**<br>• Esboniad boddhaol o'r hyn sy'n cymell y cymeriadau yn y darn a ddewiswyd<br>• Gwybodaeth a dealltwriaeth foddhaol o sut gellir defnyddio'r llais i gyfleu'r cymeriad yn y darn a ddewiswyd<br>• Gwybodaeth a dealltwriaeth foddhaol o sut gellir defnyddio symudiadau i gyfleu'r cymeriad yn y darn a ddewiswyd.<br>• Gwybodaeth a dealltwriaeth foddhaol o sut gellir defnyddio rhyngweithio i gyfleu'r cymeriad yn y darn a ddewiswyd<br>• Cyfeiriadau cyffredinol at y darn a ddewiswyd i ategu'r awgrymiadau ynglŷn â sgiliau llais/symudiadau/rhyngweithio<br>• Gwybodaeth, dealltwriaeth a defnydd perthnasol ar y cyfan o derminoleg drama. |
| **2** | **4-6 marc**<br>• Esboniad sylfaenol o'r hyn sy'n cymell y cymeriadau yn y darn a ddewiswyd<br>• Gwybodaeth a dealltwriaeth sylfaenol o sut gellir defnyddio'r llais i gyfleu'r cymeriad yn y darn a ddewiswyd<br>• Gwybodaeth a dealltwriaeth sylfaenol o sut gellir defnyddio symudiadau i gyfleu'r cymeriad yn y darn a ddewiswyd<br>• Gwybodaeth a dealltwriaeth sylfaenol o sut gellir defnyddio rhyngweithio i gyfleu'r cymeriad yn y darn a ddewiswyd<br>• Rhai cyfeiriadau priodol at y darn a ddewiswyd i ategu'r awgrymiadau ynglŷn â sgiliau llais/symudiadau/rhyngweithio<br>• Rhywfaint o wybodaeth, dealltwriaeth a defnydd perthnasol o derminoleg drama. |
| **1** | **1-3 marc**<br>• Esboniad cyfyngedig o'r hyn sy'n cymell y cymeriadau yn y darn a ddewiswyd<br>• Gwybodaeth a dealltwriaeth gyfyngedig o sut gellir defnyddio'r llais i gyfleu'r cymeriad yn y darn a ddewiswyd<br>• Gwybodaeth a dealltwriaeth gyfyngedig o sut gellir defnyddio symudiadau i gyfleu'r cymeriad yn y darn a ddewiswyd<br>• Gwybodaeth a dealltwriaeth gyfyngedig o sut gellir defnyddio rhyngweithio i gyfleu'r cymeriad yn y darn a ddewiswyd<br>• Cyfeiriadau cyfyngedig at y darn a ddewiswyd i ategu'r awgrymiadau ynglŷn â sgiliau llais/symudiadau/rhyngweithio<br>• Gwybodaeth, dealltwriaeth a defnydd cyfyngedig o derminoleg drama berthnasol. |
| **0 marc** | • Nid yw'r ymateb yn haeddu marciau / ni roddwyd cynnig arno |



© WJEC CBAC Ltd.2025.

| Cynnwys dangosol |
|---|
| *Dim ond enghreifftiau sydd isod a dylai pob dewis amgen dilys gael ei ystyried a'i farcio'n briodol, yn unol â'r olygfa a ddewiswyd.*<br><br>**Os bydd yr ymgeiswyr yn defnyddio'r un darn ag a ddefnyddiwyd yng Nghwestiwn 1(a) – 1(c) ni allant sgorio'n uwch na band 2.**<br><br>**Cymeriad John**<br>Teg, ddim yn ofni herio bwlis<br><br>**Cymhelliant y cymeriad**<br>Dylai cymhelliant y cymeriad gael ei ddeall yng nghyd-destun y darn a ddewiswyd.<br><br>**Llais**<br>Gall ymgeiswyr ystyried: acen, tôn, tempo, lefel sain, seibiau, distawrwydd is-destun.<br><br>**Symudiadau:**<br>Gall ymgeiswyr ystyried: ansawdd symudiadau, ystumiau, mynegiant wyneb, symudiadau gan gynnwys propiau, set, gwisgoedd. Gallai'r ymgeiswyr gyfeirio at y defnydd o ofod actio a chyfeirio at y pellter rhwng cymeriadau.<br><br>**Rhyngweithio**<br>Â'r cymeriadau eraill, â'r gynulleidfa, â'r set/propiau.<br><br>**Dylid cysylltu pob un o'r uchod yn agos â'r cymeriadau/adegau yn y darn a ddewiswyd** |



© WJEC CBAC Ltd.2025.

## Dyddiadau Pwysig

| | |
|---|---|
| Addysgu CBAC TGAU pwnc am y tro cyntaf | 2025 |
| Asesiad cyntaf ar gyfer Uned 2 (asesiad allanol) | Haf 2027 |
| Asesiad cyntaf ar gyfer Uned 3 (asesiad allanol) | Haf 2027 |
| Rhyddhau briff aseiniad Asesiad Di-arholiad Uned 1 am y tro cyntaf | Medi 2025 |
| Cyflwyno Asesiad Di-arholiad Uned 1 am y tro cyntaf | Mai 2027 |
| Cyflwyno Asesiad Di-arholiad Uned 2 am y tro cyntaf | Mai 2027 |
| Ardystio am y tro cyntaf | 2027 |


© WJEC CBAC Ltd.2025.

## Atodiad A: Ymarferwyr a Genres Theatr

Mae'r rhestr ganlynol yn cynnwys awgrymiadau o ymarferwyr a genres theatr y gellir eu defnyddio i ddatblygu gwaith. Gall dysgwyr ddewis ymarferwr neu genre gwahanol os dymunant. Os bydd gennych unrhyw amheuaeth ynghylch priodoldeb yr ymarferwr neu genre sy'n cael ei ddewis,
cysyllltwch â CBAC.

- Stanislavski
- Brecht
- Berkoff
- Emma Rice
- Katie Mitchell
- Eddie Ladd
- Theatr Mewn Addysg
- Theatr Gorfforol
- Theatr Gerdd.

Mae'r rhestr ganlynol yn amlinellu rhai o brif dechnegau pob ymarferwr neu nodweddion pob genre. Nid yw'r rhestr yn gynhwysfawr ac ni ddisgwylir bod yn rhaid i ddysgwyr ddangos yr holl nodweddion yn eu gwaith. Argymhellir y dylai dysgwyr anelu at ddefnyddio rhwng pedair a chwe thechneg neu nodwedd yn eu gwaith.
Stanislavski:

- y bedwaredd wal
- teimlad o wirionedd
- yr 'os' lledrithiol
- cof emosiynol
- cof cyhyrol
- cylchoedd sylw
- tonyddiaeth a seibiannau
- ataliaeth a rheolaeth
- symudiadau naturiolaidd
- cymeriadau tri dimensiwn.

Brecht:

- dull uniongyrchol o gyfarch
- adroddwr
- chwarae sawl rôl
- gestus
- placardiau
- cerddoriaeth a chaneuon
- ymddieithrio
- strwythur episodig
- persbectifau gwleidyddol.



© WJEC CBAC Ltd.2025.

Berkoff:

- symudiadau arddulliedig (araf symudol/robotig)
- ystumiau wynebol gormodol
- dull uniongyrchol o gyfarch
- gwaith lleisiol gormodol
- tableaux
- mwgwd
- gwaith ensemble
- minimaliaeth
- meim gormodol ac arddulliedig.

Emma Rice:

- theatr gymunedol
- arddulliau perfformio cymysg
- cerddoriaeth/caneuon
- comedi
- triciau syrcas
- theatr gorfforol
- gwaith ensemble.

Katie Mitchell:

- Dull Stanislavski o greu cymeriad
- defnyddio technoleg i wella'r perfformiad
- delweddaeth llwyfan yn bwysig
- pwysigrwydd naratif.

Eddie Ladd:

- dawns/theatr gorfforol
- testun yn Gymraeg a Saesneg
- pwyslais gwleidyddol
- defnydd o dechnoleg i arwain y gwaith
- safle-benodol ar adegau.
- Theatr Mewn Addysg:
- cynulleidfa darged
- testun
- chwarae sawl rôl
- gwybodaeth addysgol
- dull uniongyrchol o gyfarch
- adroddwr
- neges
- cyfranogiad y gynulleidfa.



© WJEC CBAC Ltd.2025.

Theatr Gorfforol:

- symudiadau
- ystumiau ac iaith y corff
- sain
- commedia dell'arte
- meim
- statws
- agosrwydd
- defnyddio mygydau
- gwneud cyflyrau emosiynol yn gorfforol.

Theatr Gerdd:

- cân
- deialog
- dawnsio
- monolog
- hiwmor
- pathos
- dicter neu gasineb
- corws.



© WJEC CBAC Ltd.2025.

## Atodiad B: Rhestr Terminoleg

Isod mae rhestr terminoleg sydd wedi'i chynllunio i gynorthwyo canolfannau i baratoi dysgwyr ar gyfer yr asesiad di-arholiad yn Unedau 1 a 2, a'r asesiad a arholir yn Uned 3.

Nid yw'n cyd-fynd â meini prawf asesu penodol o fewn unedau unigol, ac mae wedi'i chynllunio i gynorthwyo dysgwyr i fynegi eu syniadau gan ddefnyddio terminoleg pwnc benodol yn ogystal â chynnig amrywiaeth o gysyniadau, termau a syniadau ar gyfer cynnwys y efallai byddai dysgwyr yn dymuno eu hystyried a/neu eu cynnwys wrth archwilio a pharatoi eu gwaith ymarferol a damcaniaethol. Nid yw'r rhestr hon yn gynhwysfawr a gall canolfannau/dysgwyr archwilio technegau perfformio/dylunio a/neu gonfensiynau priodol eraill.

**Sgiliau lleisiol**
Traw
Cyflymder/tempo
Tôn
Saib
Acen
Lefel sain
Eglurder
Cerddoroldeb
Goslef
Rhythm

**Sgiliau corfforol**
Ystum
Llonyddwch
Rhuglder
Mynegiant
Osgo
Mynegiant wyneb
Symudiadau
Pellter rhwng actorion (cynefineg)

**Rhyngweithio**
Cyswllt llygad
Gwrando ac ymateb
Cyflymder *(pace)*
Rhuglder
Cymhelliant
Safle
Statws



© WJEC CBAC Ltd.2025.

**Datblygiad/Ymarfer**
Coridor cydwybod (sydd hefyd yn cael ei alw'n 'lôn gydwybod' neu 'dwnnel meddyliau')
Cof emosiynol
Llun llonydd / tableaux
Cadair goch
Creu'n fyrfyfyr
Cyfnewid rolau
Trosglwyddo rolau
Rôl ar y wal
Cerfio
Creu is-destun yn fyrfyfyr
Meddyliau yn y pen neu olrhain meddyliau

**Dylunio goleuo**
Tanbeidrwydd
Blacowt
Snap
Codi golau o ddim / pylu golau i ddim
Pylu
Croesbylu
Golau cylch
Llifolau
Golau cylch dilyn
Golau i fyny
Golau i lawr
Rhagosodiad
Goleuadau tŷ
Ciw goleuo
Tafluniadau
Llusernau
Golch o olau oer
Golch o olau cynnes
Gobos
Offer goleuo arbennig
Strôb
Taflenni ciwiau
Peiriant mwg
Rhwyllen (sgrim)


© WJEC CBAC Ltd.2025.

**Dylunio sain**
Cerddoriaeth
Effeithiau sain
Ciw sain
Seiniau byw
Seiniau wedi’u recordio
Lefel sain
Datsain/atsain
Ffynonellau sain
Sain amgylchynol
Mwyhad
Microffonau
Awyrgylch
Hidlydd
Sampl
Graddol gryfhau o ddim / Graddol bylu i ddim
Seinlun
Sain gynefin / anghynefin
Ystumiant
Adborth
Taflenni ciwiau
Sŵn gwyn
Tansgor
Leitmotiv


© WJEC CBAC Ltd.2025.

**Dylunio set/llwyfannu**
Mynd ar/oddi ar y llwyfan
Bwa Proseniwm
Ffedog
Theatr gylch
Llwyfan ymwthiol
Llwyfan traws
Llwyfan pen-atoch
Promenâd
Safle-benodol
Hedfan i mewn/allan
Tro
Llwyfan ar ogwydd
Trapddor
Rhwyllen
Cynllun llawr
Llinellau gweld
Canol chwith
Canol dde
Fyny canol llwyfan
Lawr canol llwyfan
Canol llwyfan
Cefnlen/seiclorama
Safle-benodol
Esgyll/fflatiau
Gwisgo set
Propiau
Dodrefn
Tafluniad
Gweadedd/ffabrigau
Model o set
Lefelau
Dodrefn

**Dylunio gwisgoedd (gan gynnwys gwallt a cholur)**
Cyfwisgoedd
Defnyddiau/ffabrigau
Dillad
Steiliau gwallt
Wigiau
Hylinio (*contouring*)
Patrwm
Cyfnod
Steil


© WJEC CBAC Ltd.2025.

**Arddulliau Perfformio**
Naturiolaidd
Theatr Epig / Arddull Brecht
Annaturiolaidd
Theatr Gorfforol
Arddull Artaud / Theatr Creulondeb
Arddull Berkoff
Theatr Mewn Addysg
Theatr y Gorthrymedig/Boal / Theatr Gyflawn
Theatr Gerdd:

**Arddulliau dylunio**
Naturiolaidd
Theatr Epig / Arddull Brecht
Annaturiolaidd
Mynegiadol
Minimalaidd
Realaeth


© WJEC CBAC Ltd.2025.